Cyngor Bro Llanllwni
Adroddiad Cyfarfod mis Ionawr 2022

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Eglwys Llanllwni, nos Lun 10 Ionawr 2022.

Roedd y Clerc wedi rhoi poster a oedd yn cynnwys yr Agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Roedd pob un a oedd yn bresennol yn dilyn rheolau Cofid ac yn gwisgo mygydau.

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

Cydymdeimlwyd ag Emrys a Linda Evans a'r teulu ar eu profedigaeth.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf.
Cafwyd trafodaeth am y camau nesaf i'w cymryd er mwyn datblygu'r cae chwarae.
Cytunwyd bod angen cwrdd ar y cae chwarae i benderfynu lle y byddai'r man gorau i osod y caban.

GWEFAN LLANLLWNI
Yr oedd y Clerc wedi derbyn adborth parthed y wefan. Cytunwyd y dylid symud ymlaen â'r gwaith.

DIFFIBRILYDD
Byddai hyfforddiant yn cael ei drefnu ym mis Ebrill

GOLEUADAU STRYD
Cafwyd cadarnhad bod y golau ger Dolifor yn gweithio a'r gwaith wedi ei gwblhau ar 30 Rhagfyr 2021. Nid oedd y golau ger Ffynnon-ddrain yn gweithio. Cadarnhawyd bod y golau wedi ei ailosod ger Yr Hen Swyddfa Bost, a bod gorchudd wedi ei roi dros oleuadau dau safle.

ETHOLIAD 2022
Nodwyd bod etholiad i'w gynnal ym Mai 2022. Ni fydd Dewi Davies, Tommy Davies nac Emrys Evans yn parhau.

LLWYBR PWLL JAC
Mae coeden wedi cwympo ar y llwybr. Byddai'n cael sylw yn y man.

Penderfynwyd cefnogi Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Caerfyrddin 2023; Arch Noa.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 14 Mawrth 2022 am 7.30yh.